MHS
Gwasanaeth Hylendid Cig

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/08 – crynodeb

Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Lles Anifeiliaid

Cynnwys

Rhagair	3
Arolwg y Prif Weithredwr	4
Cefndir i'r Gwasanaeth Hylendid Cig	6
Asesiad o berfformiad y GHC yn erbyn amcanion corfforaethol, 2007/08	9
Trawsnewid y GHC	11
Amcanion corfforaethol y GHC ar gyfer 2008/09	14
Cyfrifon Blynyddol	15

Rhagair

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC) yn Asiantaeth Weithredol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), sydd yn Adran An-weinidogaethol o'r Llywodraeth, ac yn atebol i'r Senedd, a'r gweinyddiaethau datganoledig yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, drwy Weinidogion Iechyd. Mae'r GHC yn gweithredu o fewn Lloegr, Yr Alban a Chymru (PF), ond nid yng Ngogledd Iwerddon.

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2007/08 gerbron San Steffan a Senedd Yr Alban ar 25ain Mehefin eleni. Nid oes gofyn ffurfiol i gyflwyno'r ddogfen gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond gosodwyd copïau yn Llyfrgell yr Aelodau yng Nghaerdydd.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi prif uchafbwyntiau a llwyddiannau 2007/08 y rhoddir adroddiad yn eu cylch yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.



Steve McGrath
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2008

Pencadlys GHC
Kings Pool
Peasholme Green
Caerefrog, Gogledd Swydd Efrog
YO1 7PR
Ffôn: 01904 455501

Arolwg y Prif Weithredwr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol iawn i'r Gwasanaeth Hylendid Cig. Mae gwarchod iechyd y cyhoedd, ac iechyd a lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu lladd, wedi parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i ni yn ystod 2007/08. Mae ein hymrwymiad i drawsnewid i fod yn sefydliad mwy effeithiol ac effeithlon wedi cynyddu hefyd ac mae eisoes yn dod â chanlyniadau cadarnhaol.

Ni all ystadegau fyth grynhoi cymhlethdod ein gwaith yn llawn, ond dengys y rhifau ein bod dros y 12 mis diwethaf wedi archwilio bron i 800 miliwn o gywion ieir, 16 miliwn o ddefaid/ŵyn, 8.5 miliwn o foch a mwy na 2 filiwn o wartheg. Wrth sicrhau bod busnesau bwyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth, bu i ni gymryd 727 o gamau gorfodi ffurfiol a 3,848 o rai anffurfiol.

Mae'r darlun mwy yn dangos ein bod wedi wynebu achosion a gadarnhawyd o glwy'r traed a'r genau, ffliw adar a'r dafod las, ac wedi derbyn diolch am ein cyfraniad cadarnhaol tuag at y mesurau i reoli clefydau. Roedd llawer o'r llwyddiant hwn yn ganlyniad gweithio mewn partneriaeth gadarnhaol gyda'r diwydiant cig.

Parhawyd i ymdrechu i gyflenwi rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig ffres cymeradwy yn fwy effeithiol ac am gost sy'n fwy derbyniol i'r diwydiant a'n rhiant gorff, yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Ar ddechrau 2007 roedd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi lleihau'r dewisiadau ar gyfer cyflenwi rheolaethau swyddogol yn y dyfodol i ddau – Gwasanaeth Hylendid Cig wedi ei drawsnewid neu gorff rheoli trydydd parti.

Gweithiodd y Gwasanaeth Hylendid Bwyd yn galed i gyflwyno ei gais i barhau i fod y corff sy'n cyflenwi'r rheolaethau swyddogol, ac ystyriwyd y cais yn ffafriol ym mis Gorffennaf 2007 ond gyda'r amod y dylai gwaith barhau i gael ei wneud ar asesu ymarferoldeb yr opsiwn o gael corff rheoli.

Bu'r broses drawsnewid yn casglu momentwm trwy weddill 2007 ac ym mis Tachwedd cyhoeddwyd canlyniad terfynol adolygiad a wnaed gan ein Tîm Dilysu Staffio. Drwy sicrhau adleoli effeithiol, llwyddodd y Gwasanaeth Hylendid Cig i gwtogi ar gyfanswm nifer y swyddi gweithredol o 134, gan gynilo £4 miliwn y flwyddyn. Ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau wedi ei hailstrwythuro a chau ein pum Swyddfa Ranbarthol, ac ym mis Ionawr 2008 lansiwyd cynllun ymddeoliad cynnar/diswyddiad gwirfoddol fel cam cyntaf tuag at gyflawni mwy o gwtogiadau ehangach yn niferoedd y staff erbyn Ebrill 2011.

Rwy'n falch o gofnodi ein bod wedi derbyn cefnogaeth glir Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei gyfarfod ym Mai 2008, pan gefnogodd Wasanaeth Hylendid Cig wedi ei drawsnewid a chytuno na ddylai'r dewis peilot gael ei gyflwyno. Cydnabu'r Bwrdd ein bod wedi cyflawni gwelliannau sylweddol o ran effeithiolrwydd mewn cyfnod cymharol fyr.

Yn ystod 2008/09, byddwn yn cyflwyno strwythur gweithrediadol newydd yn seiliedig ar 37 o glystyrau daearyddol o adeiladau cig ffres cymeradwy. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau yn lleol ac atebolrwydd.

Elfen allweddol yn y gwaith o adolygu cyflenwi rheolaethau swyddogol fu'r cysyniad o ddiwydiant cig ffres yn talu cyfran fwy o'r costau. Y bwriad yw yng nghyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngorffennaf 2008 y gofynnir am gymeradwyaeth i'r argymhellion codi tâl ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn hyn, byddwn yn ymgynghori yn ffurfiol â rhanddeiliaid ynghylch system codi tâl ddiwygiedig o 1 Ebrill 2009 ymlaen.

I offsetio'r taliadau uwch i ddiwydiant, byddwn yn sicrhau gostyngiadau pellach mewn costau o bron i £5 miliwn mewn termau real yn 2008/09, ar ben y rhai a sicrhawyd yn barod yn 2007/08. Rydym yn gweithio gyda diwydiant i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig er mwyn cadw costau i isafswm. Bydd moderneiddio ein hamodau a'n telerau gwasanaeth yn hanfodol hefyd i'n llwyddiant parhaol ac rydym yn gweithio gyda'n staff ac UNISON i gyflawni hyn.

Bydd sicrhau arbedion pellach er budd y diwydiant cig, a'r trethdalwr yn cael eu cyflawni dim ond os bydd ein rhanddeiliaid yn parhau i weithio gyda ni. Fel y dywedais yng nghyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Mai 2008, yr hyn y mae arnom ei angen yn awr yw i'n holl randdeiliaid gefnogi'r cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo. Gallaf innau yn fy nhro sicrhau pawb y bydd iechyd y cyhoedd, ac iechyd a lles anifeiliaid yn parhau i gael eu gwarchod fel ein prif flaenoriaeth.

Rwy'n hyderus, drwy waith caled ein staff a'n partneriaid, y bydd 2008/09 yn flwyddyn arbennig o lwyddiannus a chofiadwy i'r Gwasanaeth Hylendid Cig.



Steve McGrath
Prif Weithredwr
11 Mehefin 2008

Cefndir i'r Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r GHC yn Asiantaeth Weithredol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol fel Asiantaeth Weithredol o'r gyn Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (WAPB), ar 1af Ebrill 1995, pan gymerodd gyfrifoldeb dros ddyletswyddau arolygu cig gan oddeutu 300 o awdurdodau lleol a datblygu i fod yr unig asiantaeth â chyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth hylendid cig ym Mhrydain Fawr (PF). Trosglwyddwyd y mwyafrif o'r staff o awdurdodau lleol i'r GHC, gan drosglwyddo hefyd eu harbenigedd mewn arolygu cig. Ar y 1af Ebrill 2000, trosglwyddwyd y GHC o'r WAPB (sydd bellach yn rhan o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – Defra) i ddod yn rhan o'r Asiantaeth Safonau Bwyd newydd.

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn gyfrifol am reolaethau swyddogol ym mhob adeilad cig ffres cymeradwy. Mae'n cyflawni rheolaethau swyddogol drwy ymgymryd â thasgau archwilio penodol a phenderfynu, drwy archwilio a dilysu, a fydd trefniadau Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn cyflawni hyn ac a ydynt yn cael eu cymhwyso yn briodol.

Mae prif weithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn cynnwys:

- Gorfodi deddfwriaeth am:
    - Hylendid;
    - Deunydd Risg Penodedig (DRP) ac isgynhyrchion anifeiliaid eraill;
    - Lles anifeiliaid wrth eu lladd;
    - Rheolaethau brys yn gysylltiedig ag achosion wedi eu cadarnhau o glefydau anifeiliaid;
    - Y gwaharddiad ar roi cynhyrchion yn deillio o gwartheg a anwyd cyn 1 Awst 1996 ar y farchnad.
- Darparu archwiliadau cig a rheolaethau ar nodi iechyd.
- Casglu a dosbarthu samplau ar gyfer profion statudol ar weddillion meddyginiaethau milfeddygol ac archwilio a phrofi am Sbwngffurf Enseffalopathi Trosglwyddadwy (SET).
- Gwirio adnabod gwartheg.
- Darparu ardystiad allforio.
- Arolygu, archwilio a monitro darparu gwasanaethau ar gyfer y Cynllun Gwaredu Gwartheg Hŷn (CGGH).

Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig mewn adeiladau cymeradwy ar gyfer cig ffres ym Mhrydain Fawr. O dan y Gwasanaeth Hylendid Cig wedi ei drawsnewid, cefnogir dau Gyfarwyddwr Busnes gan 12 o Reolwyr Busnes y mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli cysylltiadau gyda rhanddeiliaid, arwain ac ysgogi'r gweithlu, rheoli perfformiad ac ariannol, a rheoli contractau. Mae adeiladau cig ffres ledled Prydain wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ddaearyddol mewn 37 o glystyrau ac arweinir pob clwstwr gan Brif Filfeddyg, sy'n gyfrifol am staff sy'n gweithio mewn timau archwilio mewn adeiladau cymeradwy yn eu clwstwr arbennig nhw. Mae'r timau archwilio yn cynnwys:

- Milfeddygon Swyddogol (OVs);
- Uwch Arolygwyr Hylendid Cig neu Uwch Arolygwyr Cig Dofednod (SMHIs/SPMIs);
- Arolygwyr Hylendid Cig neu Arolygwyr Cig Dofednod (MHIs/PMIs);
- Technegwyr Cig (MTs).

Mae adeiladau cymeradwy yn amrywio o ran maint a'r rhywogaethau a leddir. Mae staff y Gwasanaeth Hylendid Cig yn darparu gwasanaethau archwilio i'r adeiladau hyn 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn fel y bo'r gofyn.

Gellir canfod rhestrau manwl o'r adeiladau cymeradwy yn y DU ar wefan yr ASB yn: www.food.gov.uk/foodindustry/meat/meatplantsprems/meatpremlicence.

Os bydd Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn methu â chynhyrchu cig diogel, mae staff y Gwasanaeth Hylendid Cig yn cymryd camau gorfodi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn ceisio sicrhau bod unrhyw weithredu ffurfiol a wneir gan y Gwasanaeth Hylendid Cig yn rhesymol, yn gyson ac yn gymesur i'r risg i iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid. Mae hyn yn amrywio o gyngor anffurfiol, hyd at gyflwyno rhybuddion ffurfiol ac erlyniad, ac, yn y pen draw, at argymhelliad bod cymeradwyo sefydliad i weithredu yn cael ei atal neu ei ddiddymu.

Iechyd a Diogelwch

2007/08 oedd y flwyddyn gyntaf o gyflenwi yn erbyn Strategaeth Iechyd a Diogelwch tair blynedd y Gwasanaeth Hylendid Cig. Roedd darnau allweddol o waith yn cynnwys datblygu methodoleg asesu risg ergonomeg, cyflwyno'r broses asesu risg ar gyfer anifeiliaid wedi dianc, a sefydlu trefn reoli data ddiwygiedig. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig mewn sefyllfa well nag erioed o'r blaen i gipio data sy'n ymwneud ag anafiadau ac afiechyd galwedigaethol.

Mae Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth Hylendid Cig wedi parhau i gwblhau gwaith ar gyfer safleoedd penodol mewn llawer o adeiladau'r Gweithredwyr Busnesau Bwyd. Eleni cymerodd y Gwasanaeth Hylendid Cig gadeiryddiaeth Gweithgor ar y Cyd y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch/Masnachau Cig. Parhaodd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn ymrwymedig i weithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i atebion i heriau i Iechyd a Diogelwch.

Damweiniau, digwyddiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus y dylid eu cofnodi,

Math o ddigwyddiad i'w gofnodi	**Nifer y digwyddiadau**
Niwed mawr	2
Anaf yn arwain at fwy na thri diwrnod i ffwrdd o'r gwaith	27
Clefyd	9
Cyfanswm nifer y digwyddiadau i'w cofnodi i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch	**38**

2007/08

Cafwyd cyfanswm o 178 o ddamweiniau yn ymwneud ag anafiadau (gostyngiad o 13 y cant ers 2006/07). O ystyried bod trefn cofnodi newydd a chadarnach wedi ei chyflwyno, cofnodwyd 115 o achosion a oedd bron yn ddamweiniau (100 y cant o gynnydd ers 2006/07) a chafodd 42 o achosion o afiechyd yn gysylltiedig â gwaith eu cofnodi hefyd (o'i gymharu ag 14 y flwyddyn flaenorol).

Roedd nifer y dyddiau a gollwyd o ganlyniad i niwed ac afiechyd galwedigaethol yn cyfrif am 16 y cant o'r holl amser a gollwyd. Trwy gydol 2007/08 roedd gostyngiad sylweddol yn y math hwn o absenoldeb ac rydym yn parhau yn hyderus o gyrraedd ein targedau strategol ar gyfer 2010.

Datganiad Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethau ac annog amrywiaeth ymysg ei weithlu. Y nod yw y bydd ein gweithlu yn wirioneddol gynrychioliadol o bob adran o gymdeithas, gyda phob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei barchu ac yn gallu rhoi o'i orau. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn sicrhau cydraddoldeb a thegwch yn ein holl arferion cyflogaeth ac nid yw'n gwahaniaethau ar sail rhyw, statws priodasol, hil, tarddiad ethnig, lliw, cenedl, tarddiad cenedlaethol, anabledd, tuedd rywiol, crefydd nac oed.

Mae pob gweithiwr, boed y rhain yn rhai rhan amser, amser llawn neu yn staff dros dro, staff contract neu asiantaeth yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Caiff pobl eu dewis ar gyfer gwaith, dyrchafiad, hyfforddiant neu unrhyw fudd arall ar sail dawn, gallu a rhagoriaeth yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Mae'r gweithwyr i gyd yn cael eu helpu a'u hannog i ddatblygu eu potensial, a gwneir defnydd llawn o dalentau ac adnoddau'r gweithlu i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu mor effeithlon â phosibl.

Cysylltiadau Gweithwyr

Mae gan y Gwasanaeth Hylendid Cig ac UNISON fframwaith ffurfiol i ymgynghori a thrafod gyda gweithwyr, sy'n tanlinellu'r ymrwymiad ar y cyd i sefydlu mecanweithiau clir ac effeithiol o sicrhau cysylltiadau â gweithwyr. Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn cyfathrebu yn rheolaidd gyda'i weithlu drwy Fewnrwyd y Gwasanaeth Hylendid Cig, cyhoeddiadau sefydledig fel MHS News a MHS Update, ac – ynghylch materion sefydliadol mawr fel Trawsnewid y Gwasanaeth Hylendid Cig – drwy lythyr personol oddi wrth y Prif Weithredwr.

Asesiad o berfformiad y GHC yn erbyn amcanion corfforaethol, 2007/08

Yn unol â gofynion y Swyddfa Gabinet ar gyfer Asiantaethau Gweithredol, mae Dogfen Fframwaith y GHC yn gofyn am osod targedau perfformio blynyddol i'r Gwasanaeth Hylendid Cig. Dylai targedau neu amcanion o'r fath gynnwys safon a chyflenwi gwasanaeth, perfformiad ac effeithiolrwydd ariannol. Gorwedda'r cyfrifoldeb am osod amcanion corfforaethol ar gyfer y Gwasanaeth Hylendid Cig, gyda Bwrdd y GHC, ar ran Bwrdd yr ASB.

Cyfarfu Bwrdd y GHC ar 29 Mai 2008 ac aseswyd perfformiad y GHC yn erbyn yr amcanion corfforaethol a osodwyd ar gyfer 2007/08. Daethant i'r casgliad fod y pum amcan wedi eu hateb.

Amcan 1 – Cyflawni gofynion y cwsmer

O blith y deg o ddangosyddion perfformiad ar gyfer yr amcan hwn, cafodd wyth eu bodloni yn llawn (gan gynnwys iechyd a lles anifeiliaid, hylendid a sicrwydd ynghylch safonau cyflenwi) a dau yn rhannol – rheolaethau BSE a bodlondeb y cwsmer.

Parhaodd dilysiad y GHC o gydymffurfiad â rheolaethau BSE yn eithriadol o uchel yn ôl 99.9997% – allan o 2,209,845 o fucholion a broseswyd yn 2007/08 cofnodwyd chwe achos o dorri rheolau. Proseswyd pump o fucholion dros ddeng mis ar hugain fel rhai o dan ddeng mis ar hugain ac ni chawsant eu profi am BSE cyn eu rhyddhau i'r gadwyn fwyd ddynol, ac roedd un achos o dorri SRM lle canfuwyd madruddyn y cefn mewn chwarter o gig eidion a dderbyniwyd mewn gwaith torri cig. Roedd y perygl i iechyd y cyhoedd o'r achosion hyn o dorri rheolau yn fychan iawn. Bydd y GHC yn parhau i ymdrechu i sicrhau na fydd unrhyw achosion o dorri rheolaethau BSE.

Gwellodd canlyniadau ynglŷn â bodlondeb y cwsmer oddi wrth ddiwydiant ac Asiantaeth Safonau Bwyd ers y llynedd. Cynyddodd bodlondeb o fewn iwydiant o 12.5% o 6.4 yn 2006/07 i 7.2 yn 2007/08, a chynyddodd bodlondeb FSA gyda'r GHC o 5.4 i 6.6 – gwelliant o 22.2%. Er bod y canlyniad ar gyfer Defra yn 7.7 yn erbyn targed o 7.8, ystyrid bod hyn o hyd yn ganlyniad da.

Oherwydd y bodlonwyd mwyafrif helaeth y dangosyddion ar gyfer yr amcan hwn, a bod y ddau a gollwyd yn risg bychan iawn i iechyd y cyhoedd, ystyriai Bwrdd y GHC fod Amcan 1 wedi ei fodloni yn sylweddol.

Amcan 2 – Rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'n staff i gyflenwi ein gwasanaethau yn effeithiol

Bodlonwyd pump o'r chwech o ddangosyddion i gefnogi'r amcan hwn, gan gynnwys cyflenwi'r rhaglenni polisi a hyfforddiant AD. Bu i weithredu dau o gydrannau'r strategaeth Iechyd a Diogelwch beidio â bodloni'r terfynau amser a dargedwyd, ond fe'u gweithredwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Er bod y dangosydd Iechyd a Diogelwch wedi methu â chyrraedd ei derfyn amser, ystyriai Bwrdd y GHC fod Amcan 2 wedi ei fodloni.

Amcan 3 – E-alluogi holl brosesau'r GHC i weithio mewn partneriaeth gyda'n cwsmeriaid lle bo hynny'n briodol

Bodlonwyd y dangosyddion oedd yn cyfrannu at y Strategaeth SG/TG ar gyfer 2007/08. Roedd y rhain yn cynnwys: nodi a chyflenwi'r gofynion ar gyfer e-alluogi prosesau busnes; cyflwyno dadansoddiad o'r rhanddeiliaid i wella mynediad at wasanaethau a e-alluogir i'r Uwch Dîm Rheoli; a datblygu'r achos busnes dros systemau TG i alluogi newidiadau i'r arferion busnes cyfredol ac i fod yn sail i'r arbedion cost ar gyfer trawsnewid.

Ystyriai Bwrdd y GHC fod Amcan 3 wedi ei fodloni.

Amcan 4 – Gweithredu o fewn y gyllideb adnoddau wedi eu dirprwyo a'r gyllideb ariannol wedi ei dirprwyo ar gyfer 2007/08

Cyflawnwyd yr holl ddangosyddion oedd yn cefnogi'r amcan hwn, gan gynnwys yr holl dargedau ariannol a osodwyd ar gyfer 2007/08 – cost gros, cost net, cost ar gyfer pob uned da byw ac arian parod.

Ystyriai Bwrdd y GHC fod Amcan 4 wedi ei fodloni.

Amcan 5 – Gwella effeithiolrwydd

Cyflawnwyd yr holl ddangosyddion corfforaethol oedd yn cefnogi'r amcan hwn, gan gynnwys: gweithredu argymhellion y Tîm Dilysu Staff; peri bod fersiwn 2 Gwybodaeth/Casglu a Chyfathrebu Canlyniadau Archwilio'r Gadwyn Fwyd ar gyfer moch; a chyflwyno cais y GHC i adolygiad yr ASB am gyflenwi rheolaethau swyddogol.

Ystyriai Bwrdd y GHC fod Amcan 5 wedi ei fodloni.

Asesiad o berfformiad y GHC yn erbyn targedau mewn blynyddoedd cynharach

Mae asesiad o berfformiad y GHC yn erbyn targedau yn 2005/06 a 2006/07 yn ymddangos fel atodiad i'r adroddiad hwn. Mae asesiadau tebyg yn mynd yn ôl i 2000/01 ar gael yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cynharach y GHC yn: http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/mhservice/businesspublications/mhsreportaccounts/

Trawsnewid y GHC

Cofir 2007/08 fel y flwyddyn y trawsnewidiodd y GHC o fod yn un nad oedd â pharch mawr iddo fel sefydliad gor-fiwrocrataidd a chostus gan rai adrannau o'r diwydiant bwyd ffres i ddechrau symud tuag at ddod yn un o'r cyrff sector cyhoeddus mwyaf effeithiol ac effeithlon yn y wlad.

Daeth yr hwb ar gyfer newid nid yn unig o'r rhannau hynny o'r diwydiant a ystyriai fod y GHC yn ddrud ac yn aneffeithiol, ond hefyd oddi wrth Fwrdd yr ASB a benderfynodd, ar ôl chwe blynedd o gefnogi'r diwydiant cig yn ariannol o ganlyniad i osod trefn codi tâl Maclean yn 2001, na ddylai arian y trethdalwyr gael ei ddefnyddio bellach fel hyn.

Erbyn Chwefror 2007, roedd Bwrdd yr ASB wedi archwilio nifer o ddewisiadau ar gyfer cyflenwi rheolaethau swyddogol ac wedi cyflwyno dau bosibilrwydd – GHC wedi ei drawsnewid, neu benodi corff neu gyrff rheoli sector preifat fel y caniateir o dan ddeddfwriaeth y GE. Ym mis Gorffennaf 2007, penderfynodd Bwrdd yr ASB mai'r GHC wedi ei drawsnewid oedd y dewis a ffafrid ac y dylid gosod amcanion ariannol hynod o lym ar y GHC i'w cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2007/08. Yn y cyfamser, roedd yr ASB i barhau i archwilio pa mor ymarferol fyddai'r dewis o fod â chorff rheoli.

O fis Awst i fis Rhagfyr 2007, dyfeisiodd y GHC nifer o brosiectau neu ffrydiau gwaith i gwtogi ar y gwariant cyffredinol, i gael y gwerth am arian gorau posibl am yr arian oedd yn cael ei wario, harneisio technoleg electronig i reoli systemau, dyfeisio polisi codi tâl y GHC, moderneiddio rheolaeth gan randdeiliaid, ac ad-drefnu haenau o reolaeth, yr oedd rhai ohonynt (yn arbennig y pum Swyddfa Ranbarthol a swyddi'r Cyfarwyddwyr Rhanbarthol) wedi bodoli ers i'r GHC gael ei sefydlu ym 1995.

Ffrydiau Gwaith y Trawsnewid	
Teitl	**Pwrpas**
Tendro am Gontractau	Tendro cyfres newydd o gontractau i ddarparu gwasanaethau milfeddygol ac archwilio cig
Codi tâl am wasanaethau	Dyfeisio polisi codi tâl y GHC a fydd o 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i godi cyfran gynyddol o gost rheolaethau swyddogol ar ddiwydiant
Adolygu strwythur y GHC	Cyflwyno'r Prosiect Clystyrau sy'n canolbwyntio ar y ffordd orau o ddiwygio strwythur gweithrediadol y GHC i gwtogi ar gostau a gwella perfformiad
Prosiect Strwythur Cymorth Mewnol (ISSP)	Archwilio gweithgareddau a wneir ar hyn o bryd a datblygu dewisiadau ynghylch sut y dylai'r rhain gael eu cyflawni yn y dyfodol
Adolygiad o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol (CSD)	Archwilio'r cyfleoedd i gynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol o fewn a rhwng yr ASB a'r GHC ac asesu dewisiadau ar gyfer y dyfodol
Safonau Milfeddygol a Pholisi Gweithrediadol	Cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran cyflenwi rheolaethau swyddogol, a gweithredu gwell rheolaeth filfeddygol drwy ddatblygu rolau'r Prif Filfeddyg a'r Milfeddygon Swyddogol
GHC a alluogir yn electronig (e-GHC)	Datblygu a chyflenwi gwelliannau mewn systemau cyfathrebu electronig y GHC , a'u gwneud yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr, yn defnyddio llai o lafur ac yn canolbwyntio yn y pen draw ar anghenion y GHC
Technoleg Gwybodaeth (TG)	Sicrhau bod y seilwaith o ran caledwedd a meddalwedd yn rhoi gallu i'r GHC gyflenwi gwasanaeth cydlynus modern a e-alluogir
Adnoddau Dynol (AD)	Adolygu amodau a thelerau cyfredol cyflogaeth, systemau gwobrwyo a rheoli perfformiad ac ymddygiadau a gwerthoedd trefniadaethol
Rheoli a chyfathrebu â rhanddeiliaid	Cynhyrchu cylchlythyr misol newydd o'r enw Link ar gyfer Gweithredwyr Busnesau Bwyd i sicrhau cydlyniad ym mhob cyfathrebu gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a darparu cyngor ynglŷn â sut y gall negeseuon gael eu cyfleu yn y dull gorau tra'n sicrhau'r nifer mwyaf posibl o gyfleoedd i roi adborth

Amserlen gweithredu – Rhagfyr 2007 – Ebrill 2008

Rhagfyr 2007

Cyhoeddwyd rhaglen o waith trawsnewid i staff a rhanddeiliaid.

Lansiwyd Cynllun Ymddeoliad Cynnar/ Diswyddo Gwirfoddol mewn dwy don, un i staff gweithredol a'r ail i staff a leolir mewn swyddfeydd gan arwain ym Mawrth 2008 at dderbyn 53 o geisiadau.

Ionawr 2008

Cyhoeddwyd amserlen ar gyfer cau 5 o swyddfeydd rhanbarthol y GHC.

31 Mawrth 2008 – Gogledd (a leolir yng Nghaerefrog)

31 Mawrth 2008 – Cymru (a leolir yng Nghaerdydd)

30 Mehefin 2008 – y De a'r Gorllewin (a leolir yn Taunton)

31 Awst 2008 – y Canolbarth (a leolir yn Wolverhampton)

30 Medi (a ddiwygiwyd yn nes ymlaen i 31 Mai) 2008 – yr Alban (a leolir yng Nghaeredin)

Mawrth 2008

Penodwyd deuddeg o Reolwyr Busnes.

Sefydlwyd canolfan trawsnewid dros dro yn y pencadlys (hyd nes bydd Uned Cynllunio Cyflenwi newydd yn cael ei chreu) i ymdrin â'r holl brosesau gweithrediadol yr ymdriniwyd â hwy yn flaenorol gan y Swyddfeydd Rhanbarthol.

Ebrill 2008

Penodwyd 10 o'r 37 o Brif Filfeddygon fel aelodau staff gyda 4 i 8 arall i ddilyn, ac ailhysbysebwyd y swyddi sydd ar ôl ymysg contractwyr milfeddygol.

Dadgomisiynwyd System Gwybodaeth Rheoli Gweithrediadau (OMIS) a'i disodli gyda system rheoli electronig 'Sefydliadau a Phobl'.

Mae Rheolwr Contractau Cenedlaethol yn mynd i gael ei benodi yn haf 2008, yn ogystal â dau Gyfarwyddwr Busnes, a fydd yn cael eu dethol drwy gystadleuaeth agored allanol. Bydd un Cyfarwyddwr Busnes yn gyfrifol am yr Alban a Gogledd a Dwyrain Lloegr (gan gysylltu'n arbennig â Llywodraeth yr Alban) a'r llall ar gyfer Cymru a De a Gorllewin Lloegr (gan gysylltu'n arbennig â Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Amcanion corfforaethol y GHC ar gyfer 2008/09

Gweledigaeth: Cig diogel yn cael ei gynhyrchu o anifeiliaid iach sy'n derbyn gofal da.

Pwrpas: Cyflenwi rheolaethau swyddogol mewn adeiladau cig cymeradwy i warchod iechyd y cyhoedd ac iechyd a lles anifeiliaid.

Mae Cynllun Busnes Corfforaethol y GHC a gyhoeddwyd yn Ebrill 2007 yn cynnwys tair blwyddyn ariannol 2007/08 i 2009/10. Mae'r amcanion corfforaethol o fewn y Cynllun Busnes Corfforaethol yn adlewyrchu gweledigaeth a phwrpas y GHC. Yr amcanion ar gyfer 2008/09, heb fod mewn unrhyw drefn pwysigrwydd yw:

Amcan 1: Cyflenwi rheolaethau swyddogol effeithiol yn unol â gofynion y cwsmer.

Amcan 2: Datblygu timau ymhellach gyda'r wybodaeth a'r ymddygiad a'r galluoedd priodol i gyflenwi ein gwasanaethau yn effeithiol.

Amcan 3: Mabwysiadu gwasanaethau electronig priodol lle bo cyfiawnhad dros hynny, mewn partneriaeth gyda chwsmeriaid a defnyddwyr.

Amcan 4: Gweithredu o fewn y targedau ariannol allweddol:
- Costau gros gweithrediadau
- Costau net gweithrediadau

Amcan 5: Cwtogi ar y Gost ar gyfer pob Uned Da Byw* (CPLU) flwyddyn ar ôl blwyddyn.

* Nodyn: Mynegir uned da byw yn nhermau anifeiliaid neu adar yn ôl pwysau. Er enghraifft, mae un uned da byw ar hyn o bryd yn cynnwys un fuwch, neu un ceffyl, neu ddau lo, neu saith mochyn, neu 10 dafad/gafr gyda phob un yn pwyso mwy na 18 kilo, neu 20 o ddefaid/geifr gyda phob un yn pwyso 18 kilo neu lai, neu 113 o ddofednod gyda phob un yn pwyso mwy na phum kilo, neu 225 o ddofednod gyda phob un yn pwyso mwy na dau kilo, neu 450 o ddofednod gyda phob un yn pwyso dau kilo neu lai.

Cyfrifon Blynyddol

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008

Datganiad o Gost Gweithredu

am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2008

	2007/08 £'000	2006/07 £'000
Costau archwilio a staff milfeddygol	**38,628**	41,233
Costau archwilio a milfeddygol contract	**27,834**	29,460
Costau gweithrediadol eraill	**1,237**	1,202
Costau Uniongyrchol	**67,699**	71,895
Costau staff gweinyddol	**11,707**	10,188
Costau gweinyddol eraill	**7,670**	9,244
Costau Gweinyddol	**19,377**	19,432
Costau Gweithredol Gros	**87,076**	91,327
Costau buddsoddiad mewn Trawsnewid	**10,557**	–
Cyfanswm Costau Gweithredu	**97,633**	91,327
Incwm Gweithredu	**(55,743)**	(58,037)
Cost gweithredu net	**41,890**	33,290

Y gost gweithredu net ar gyfer busnes arferol oedd **£31.3m** o'i gymharu â £33.3m yn 2006/07.

Mae costau buddsoddiad mewn trawsnewid o £10.6m yn cynnwys costau diswyddo o £9.7m, buddsoddiad TG o £0.1m a chostau cyflenwi rhaglenni eraill o £0.8m.

Mae costau staff gweinyddol yn cynnwys £1.5m o gostau'r gwasanaeth pensiwn yn ymwneud â holl staff y Gwasanaeth Hylendid Cig o fewn LGPS.

Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2008

	2007/08 £'000	2006/07 £'000
Diffyg net	**41,890**	33,290
Gwarged heb ei wireddu ar ailbrisio asedau sefydlog cyffyrddadwy	**–**	(1)
(Ennill)/colled actwaraidd	**(17,772)**	19,744
Cyfanswm colled/(gwarged) cydnabyddedig yn ymwneud â'r flwyddyn	**24,118**	53,033

Mantolen

fel ar 31 Mawrth 2008

	31 Mawrth 2008 £'000		31 Mawrth 2007 £'000
Asedau sefydlog			
Asedau cyffyrddadwy	**582**		494
Asedau anghyffyrddadwy	**115**		21
		697	515
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	**8,237**		7,355
Arian yn y banc ac mewn llaw	**2,152**		2,246
Cyfanswm asedau cyfredol	**10,389**		9,601
Rhwymedigaethau Cyfredol			
Credydwyr: cyfansymiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	**(15,609)**		(6,411)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol	**(15,609)**		(6,411)
(Dyledion)/asedau cyfredol net		**(5,220)**	3,190
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		**(4,523)**	3,705
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau		**(28,240)**	(47,110)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau		**(32,763)**	(43,405)
Ecwiti Trethdalwyr			
Arian wrth gefn			
Cronfa gyffredinol		**(32,819)**	(43,455)
Cronfa ailbrisio wrth gefn		**56**	50
		(32,763)	(43,405)

S McGrath
Prif Weithredwr
11 Mehefin 2008

Datganiad o lif arian

am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2008

	31 Mawrth 2008 £'000	31 Mawrth 2007 £'000
Cysoni cost gweithredu i lifiadau arian gweithredu		
Diffyg net	**(41,890)**	(33,290)
Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian	**(722)**	(645)
Addasiadau ar gyfer symudiad mewn cyfalaf gweithiol heblaw arian	**8,316**	629
Addasiad ar gyfer trosglwyddo (o)/i ddarpariaethau	**(1,098)**	(245)
Arian net (all-lif) o weithgareddau gweithredol	**(35,394)**	(33,551)
Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol		
Pryniadau asedau sefydlog	**(700)**	(298)
Elw o waredu asedau sefydlog	**–**	65
Arian net (all-lif) o weithgareddau buddsoddi	**(700)**	(233)
Dadansoddiad o ariannu		
Cyllid adnoddau oddi wrth Asiantaeth Safonau Bwyd	**36,000**	33,000
Mewnlif arian net o gyllido	**36,000**	33,000
Gofyniad arian net	**(94)**	(784)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian	**(94)**	(784)